# Nodiadau Esboniadol Ar Y Dreth Gyngor

**Mae'r nodiadau hyn Yn Rhan O'ch Hysbydias Galw Am Dalu**

### Bandiau'r Dreth Gyngor

Mae gwerth eich eiddo wedi cael ei asesu gan y Swyddfa Brisio (rhan o Gyllid y Wlad) nid gan y Cyngor. Mae eich eiddo wedi cael ei osod mewn un o 9 band prisio'n seiliedig ar ei werth cyfalaf ar y farchnad agored ar 1af Ebrill 2003. Mae'r bandiau fel a ganlyn:

| Band Prisio | Ystod Gwerth (ar 1af Ebrill 2003) |
|---|---|
| A | Hyd at £44,000 |
| B | £44,001 i £65,000 |
| C | £65,001 i £91,000 |
| D | £91,001 i £123,000 |
| E | £123,001 i £162,000 |
| F | £162,001 i £223,000 |
| G | £223,001 i £324,000 |
| H | £324,001 i £424,000 |
| I | £424,001 ac yn uwch |

### Apeliadau ynghylch bandiau

Gallwch apelio os ydych o'r farn bod eich eiddo yn y band anghywir. Gallwch gysylltu â'r ASB ar gov.uk/contact-voa ar 03000 505 505 neu drwy ysgrifennu at Valuation Office Agency, Durham Customer Service Centre, Wycliffe House, Green Lane, Durham, DH1 3UW.

### Apeliadau eraill

Gallwch apelio wrth y Cyngor i'r cyfeiriad ar eich bil mewn perthynas ag unrhyw fater nad yw'n ymwneud á phrisio e.e.

- Nid ydych yn atebol i dalu am nad chi yw'r preswyliwr na'r perchennog.
- Dylai'r annedd fod wedi'i heithrio.
- Rydych wedi cael gwrthod gostyngiad person anabl neu ddisgownt.

**SYLWER:** Nid yw cyflwyno apêl yn golygu y cewch ymatal rhag talu eich Treth Gyngor. Bydd addasiad yn cael ei wneud os bydd eich apêl yn llwyddiannus.

### Gostyngiad i band anabl

Os yw eich eiddo wedi cael ei addasu er mwyn cwrdd ag anghenion rhywun anabl sy'n byw yn yr eiddo, efallai eich bod yn gymwys i gael gostyngiad yn eich bil Treth Gyngor. Gallwch wneud cais ar-lein ar www.bridgend.gov.uk/my-account neu cysylltwch â'r Adran Drethi i'r cyfeiriad a ddangosir ar eich bil.

**Bydd eich data personol yn cael ei brosesu'n unol â'r GDPR a Deddf Diogelu Data 2018. Gall yr Awdurdod rannu'r data a ddarparwch gyda chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus er mwyn atal a chanfod twyll. Efallai y byddwn yn rhannu'ch data gydag adrannau eraill y Cyngor a chyrff allanol. Mae rhagor o wybodaeth am sut mae'r Awdurdod yn ymdrin â'ch data personol ar gael yn https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/rhyddid-gwybodaeth/diogelu-data/**

### Anheddau Wedi'u Heithrio

Mae rhai anheddau wedi'u heithrio rhag y Dreth Gyngor, sy'n golygu nad oes rhaid i chi dalu Treth Gyngor arnynt. Os yw'r Cyngor wedi rhoi eich annedd yn nosbarth y rhai a eithriwyd bydd y bil amgaeëdig yn cynnwys cod sy'n rhoi'r rheswm dros yr eithriad a chyfnod yr eithriad.

**A.** Annedd heb ei meddiannu ac ami angen, neu sydd wrthi'n cael, addasiad strwythurol neu lle mae gwaith o'r fath wedi'i gwblhau ers llai na 6 mis **(eithriad hwyaf 1 flwyddyn).**

B. Anheddau heb eu meddiannu sy'n eiddo i elusen **(eithriad hwyaf 6 mis)**.

C. Annedd a adawyd yn wag a heb ddodrefn **(eithriad hwyaf 6 mis)**.

D. Annedd a adawyd yn wag gan rywun sydd yn y carchar.

E. Annedd a adawyd yn wag gan rywun sydd wedi symud I dderbyn gofal personol mewn ysbyty neu gartref.

F. Annedd a adawyd yn wag gan rywun sydd wedi marw lle mae llai na 6 mis wedi mynd heibio ers grant profiant neu lythyrau gweinyddu.

G. Annedd wag y mae'r gyfraith yn gwahardd ei meddiannu.

H. Annedd wag sy'n disgwyl cael ei meddiannu gan weinidog yr crefyddol.

I. Annedd a adawyd yn wag gan rywun sydd wedi symud I rywle arall i dderbyn gofal personol.

J. Annedd a adawyd yn wag gan rywun sydd wedi symud i rywle arall i roi gofal personal i rywun arall.

K. Annedd a adawyd yn wag gan fyfyriwr/fyfyrwraig.

L. Annedd heb ei meddiannu sydd ym meddiant y benthyciwr morgeisi.

M. Neuaddau preswyl.

N. Annedd a feddiannir yn llwyr gan fyfyrwyr neu gan fyfyriwr/fyfyrwraig a phriod nad yw'n fyfyriwr/fyfyrwraig, nad yw'n ddinesydd Prydeinig ac sydd wedi'i (h)atal rhag derbyn cyflogaeth neu hawlio budd-daliadau.

O. Barics ac anheddau priodasol y lluoedd arfog.

P. Annedd a feddiannir gan luoedd arfog ymweliadol.

Q. Annedd wag y mae ymddiriedolwr ar ran methdalwr yn gyfrifol amdani.

R. Llain neu angorfa na meddiannir gan garafan neu gwch.

S. Anheddau a feddiannir yn llwyr gan bobl dan 18.

T. Anheddau heb eu meddiannu sy'n rhan o annedd arall ac y mae'n anodd eu gosod ar wahân.

U. Anheddau a feddiannir yn llwyr gan berson neu bobl sydd â nam meddyliol difrifol.

V. Rhai anheddau penodol a feddiannir gan ddiplomyddion.

W. Rhandai a feddiannir.

X. Anheddau a feddiannir yn llwyr gan berson neu bobl sydd â ymadawyr gofal.

**Gall dyfarnu eithriad A neu C fod yn ddibynnol ar unrhyw eithriad blaenorol a ddyfarnwyd ac mae mewn perthynas â'r eiddo nid y cyfrif.**

### Disgowntiau

Mae disgowntiau ar gael, dan amgylchiadau penodol, am y rhesymau canlynol:

- Dim ond un oedolyn yn preswylio.
- Mwy nag un oedolyn yn preswylio, ond y preswylwyr eraill yn cael eu diystyru.
- Caiff yr holl breswylwyr eu diystyru.
- Ail gartref.

Gellir diystyru pobl yn y categorïau canlynol at ddibenion y Dreth Gyngor:

- Myfyrwyr llawn-amser, myfyrwyr nyrsio, hyfforddeion Hyfforddeiaeth Genedlaethol a phrentisiaid.
- Cleifion sy'n preswylio mewn ysbyty / cartrefi gofal
- Pobl sy'n derbyn gofal mewn cartrefi gofal.
- Pobl a nam meddyliol difrifol.
- Pobl sy'n aros mewn hostelau neu lochesi nos penodol.
- Pobl 18 a 19 mlwydd oed sydd yn yr ysgol neu newydd adael yr ysgol.
- Gweithwyr gofal sy'n derbyn tal isel, a gyflogir fel arfer gan elusen.
- Pobl sy'n gofalu am rywun anabl nad yw'n briod, yn bartner, yn fab neu'n ferch dan 18.
- Aelodau o gymunedau crefyddol h.y. mynaich a lleianod.
- Pobl sydd yn y carchar.
- Ymadawyr Gofal.

- Os credwch y gallai fod gennych hawl i ddisgownt/eithriad gallwch wneud cais ar-lein ar www.bridgend.gov.uk/my-account neu cysylltwch â'r Adran Drethi i'r cyfeiriad a ddangosir ar eich bil.

Os yw'ch bil yn nodi bod gostyngiad neu eithriad wedi'i ddyfarnu, rhaid i chi hysbysu'r Cyngor os ydych chi'n credu ei fod yn anghywir cyn pen 21 diwrnod ar ôl eich newid mewn amgylchiadau. Os methwch â gwneud hynny efallai y byddwch yn destun cosb o £ 50.

Os rhoddir Gostyngiad i chi yn y Dreth Gyngor, bydd dadansoddiad yn cael ei ddarparu sy'n egluro'r cyfrifiad a'ch dyletswydd chi i hysbysu'r swyddfa hon ynghylch unrhyw newid mewn amgylchiadau.

Gellir cael mwy o wybodaeth yn ymwneud â Threth y Cyngor o www.bridgend.gov.uk/ neu'r Adran Refeniw ar 01656 643643 or trwy

e-bostio taxation@bridgend.gov.uk

.